# <u>Cyngor Cymuned Llanycil</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 27ain 2022 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Huw Charles, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Geraint Jones, Rhys Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts, Rhys Richards, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Rhys Jones i'w gyfarfod cyntaf. Derbyniwyd llythyr gan Geraint Davies yn egluro ei ddymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor. Cytunwyd yn gyntaf i ofyn iddo ail ystyried ond os yr oedd yn dal yn dymuno i adael gofynnwyd i'r clerc hysbysu Cyngor Gwynedd a chymryd y camau priodol ar gyfer ethol aelod newydd.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**
<u>a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.</u>
<u>i) Roedd yr</u> Asiantaeth Cefnffyrdd wedi cadarnhau eu bod wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd yn Llanycil yn dilyn y gwaith ar yr arglawdd yn ddiweddar.

<u>ii) Parc Cenedlaethol Cymru.</u>
Roedd Swyddog y Parc Cenedlaethol wedi cysylltu'n ôl yn egluro fod yr arian o dderbynnir am gael tynnu Amod 106 i ffwrdd o geisiadau cynllunio yn cael ei ddefnyddio i ariannu tai fforddiadwy o fewn y Parc. Ceisir gwario'r arian yn y gymuned lle cynigir y datblygiad neu'r gymuned gyfagos.

<u>b) Gweithdai Ardal Ni 2035.</u>
Cafwyd adroddiad gan Euros Puw ac Arwel Davies a oedd wedi mynychu'r gweithdy.

<u>c) Cynllun Hyfforddiant.</u>
Cymeradwywyd y cynllun yr oedd y clerc wedi ei baratoi.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd.
ii) Gwybodaeth am y gwasanaeth Tîm Tacluso Ardal Ni.
iii) Rhaglen waith yr adran priffyrdd a bwrdeistrefol.

<u>b) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Ymgynghoriad Treth Cyngor Tecach.
ii) Rhaglen cyfleusterau cymunedol – cynllun grant cyfalaf.
iii) Adran 6 y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau **-** cytunwyd i ddefnyddio'r wybodaeth wrth adolygu eu polisi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

<u>c) Amrywiol.</u>
i) Dwr Cymru - diweddariad ar y gwaith hanfodol sydd angen ei gyflawni yng nghronfa ddŵr Llyn Celyn. Cytunodd Geraint Jones a Huw Charles fynychu'r sesiwn friffio.
ii) Parc Cenedlaethol Eryri – cyfarfodydd blynyddol cynghorau cymuned a thref gyda'r Parc.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

iii) Triathlon Y Bala 2022 – diweddariad.
iv) Cyfoeth Naturiol Cymru - diweddariad gwaith diogelwch ar gronfa ddŵr Llyn Tegid.
v) Daily Post – cais am newyddion lleol.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol, nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-
ii) Ymgynghoriad Cyd-ymgeisio Llyn Celyn.

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau.
i) Ail-randal y Praesept £2,250,

b) Taliadau
i) Cytunwyd i dalu:
a) Cyngor Gwynedd (cost etholiad Mai 2022 ac archwiliad mewnol 2021/2).
b) Archwilio Cymru (archwiliad allanol 2020/21).
c) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi).
ch) TWE.

c) Archwilio Cymru.
Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd 2023-24.

ch) Trefniadau talu ar lein.
Cytunwyd i symud i fancio ar-lein a arwyddwyd y ffurflen banc perthnasol gan osod uchafswm o £500 ar gyfer pob taliad.

d) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd cais gan Gapel Talybont, Cerebral Palsy Cymru a Gofal Canser Tenevus. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Cyflwr y ffordd ger Cyffdy, Parc yn gwaethygu lle aeth coeden fawr i lawr dros 7 mlynedd yn nol.
ii) Coed angen eu torri'n ôl ger lloches bws Rhyduchaf a rhwng Pont Rhyduchaf a Throed y Banc.
iii) Cwyn wedi do di law drwy Gyngor Tref y Bala fod y llwybr ger Glanllyn heb gael ei glirio ar ôl i'r gwrych gael ei dorri.

b) Canolfan Tryweryn, Frongoch.
Cytunwyd i anfon gair o ddiolch i'r ganolfan am eu cynnig arbennig diweddar a oedd yn cydnabod gwaith y ffermwyr lleol.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 13eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.**


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….